
caru cymru
Gofalu am ein gwlad
Caring for Wales

# Canllaw ar drawsnewid lonydd cefn yn ofod cymunedol



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

cadwch gymru'n daclus
keep wales tidy

## Cyflwyniad

Mae’r papur hwn yn canolbwyntio ar enghreifftiau cadarnhaol o ymyriadau cymunedol ar raddfa fach i drawsnewid lonydd cefn yn ofod deniadol y gofelir amdano. Mae’n edrych ar achosion lle mae ymyriadau wedi gwneud lonydd cefn yn fwy deniadol yn amgylcheddol ac sydd hefyd fel arfer wedi rhoi buddion ehangach i les cymunedol.

## Cyd-destun

Mae lonydd cefn yn nodwedd mewn llawer o ardaloedd preswyl a masnachol, yn arbennig mewn tai teras a adeiladwyd yn y 19eg ganrif a dechrau’r 20fed ganrif. Gall y lleoliadau hyn achosi problemau i breswylwyr a chynghorau fel ei gilydd am amrywiaeth o resymau yn cynnwys troseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol, esgeulustod, a thipio anghyfreithlon, sbwriel a graffiti. Yn rhaglen genedlaethol Cadwch Gymru’n Daclus ei hun o arolygon sbwriel, mae hefyd wedi cael ei nodi bod ansawdd amgylcheddol lleol lonydd cefn yn tueddu i fod yn waeth na safon cyfartalog strydoedd a arolygir.

Bydd natur y problemau a’r atebion posibl yn amrywio’n eang. Mae materion perthnasol yn cynnwys:

- natur y gymdogaeth (a oes trosiant uchel o ran preswylwyr? e.e. myfyrwyr a thai amlfeddiannaeth)
- y graddau y mae angen mynediad ar gyfer cerbydau
- p’un a bod y lonydd cefn perthnasol wedi eu mabwysiadu gan y cyngor neu beidio
- lleoliadau a mathau o finiau gwastraff ac ailgylchu

Mae rhoi clwydi ar lonydd cefn wedi dod yn fwy cyffredin ac yn cael ei hyrwyddo gan rai awdurdodau lleol. Mae hyn fel arfer yn golygu gosod clwyd sydd yn cloi ei hun a’r preswylwyr yn cael allweddi. Mae effeithiolrwydd hyn yn destun ar wahân ac nid yw’n cael ei ystyried yma[i].

## Diben

Diben y papur hwn yw amlygu mentrau sydd wedi llwyddo i droi lonydd cefn sydd wedi cael eu hesgeuluso mewn ardaloedd preswyl yn lleoedd sydd yn ffynhonnell balchder ac yn fannau nad ydynt bellach yn cael eu gweld fel meysydd dympio.

*Llun o drawsnewidiad lôn gefn, Wavertree – cyn ac ar ôl.*[ii]






Mae'r enghreifftiau sydd wedi cael eu canfod wedi cael eu hadrodd yn bennaf mewn papurau newydd a'r wasg, yn hytrach nag adroddiadau a gwerthusiadau gwrthrychol. Mae hyn yn golygu nad oes digon o fanylion i arfarnu eu llwyddiant hirdymor yn llawn ac yn wrthrychol, ond mae'n bosibl nodi rhai themâu cyffredin fydd yn werthfawr i unrhyw sefydliad sydd eisiau annog prosiectau tebyg. Mae'r casgliad yn cynnwys rhestr o weithgareddau y byddai eu hangen wrth i'r prosiect ddatblygu i gyflawni'r math o ganlyniadau a ddangosir yn yr astudiaethau a amlygwyd.

## Ymyriadau ffisegol

Fel arfer yr ymyrraeth ffisegol gyntaf oedd ei hangen oedd clirio. Mewn llawer o achosion, cafodd y gofod oedd braidd yn dywyll ei oleuo wedyn trwy baentio'r waliau yn llachar neu mewn lliwiau golau [iii] [iv] neu hyd yn oed galluogi artistiaid lleol i ddefnyddio'r waliau fel cynfas[v].





*Lluniau o lonydd cefn wedi eu paentio yn 1) Miracle Way - Lower Ormeau Belfast[vi], 2) Llun o gelf stryd yn Camden Street, Middlesborough[vii]*

Cyflwynodd y rhan fwyaf o gynlluniau natur hefyd i lôn gefn ar ffurf planwyr, tybiau, delltwaith neu basgedi crog[viii].



*Llun o arddio cymunedol yn cyfrannu at drawsnewid lôn gefn yn Rufford Road[ix]*

Roedd eitemau eraill a osodwyd i greu ardaloedd eistedd a chymdeithasu yn amrywio o seddi, ardaloedd chwarae i fariau stryd a sinema fach! [x]



*Photo of mini-bar installed as part of alleyway transformation in Claughton*[xi]

## Cyfranogiad cymunedol

Dechreuodd y rhan fwyaf o brosiectau gyda phreswylwyr lleol yn chwilio am gyfle i wneud defnydd gwell o'r lôn gefn ac anhapusrwydd gydag ardal oedd yn faes dympio. Roedd nifer o achosion lle'r ysgogodd cyfnod clo Covid rhai preswylwyr lleol i weld addewid lonydd cefn fel gofod awyr agored i'r gymuned leol ddod ynghyd. Yn aml, rhoddodd y preswylwyr wybod i eraill am eu syniad trwy nodyn trwy'r drws neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol wnaeth ddatblygu'n grŵp o breswylwyr oedd yn frwdfrydig ac yn barod i wneud gwaith corfforol i roi'r prosiect ar waith. Mewn llawer o achosion, roedd cyfranogiad un neu ddau o bobl yn gatalydd am fwy o ymgysylltu.

## Partneriaeth

Roedd amrywiaeth eang o sefydliadau partner yn bwysig yn cyfrannu at gyfnodau gwahanol trawsnewid lonydd cefn. Mewn rhai achosion, cafodd yr ardal ei rheoli gan gymdeithas dai, ac fe wnaethant chwarae rhan allweddol yn cefnogi syniadau preswylwyr[xii]. Roedd cyfranogiad y cyngor yn cynnwys cymorth gan gynghorydd lleol yn aml a chymorth i symud sbwriel a thipio anghyfreithlon oedd yno'n barod. Roedd gan grwpiau amgylcheddol neu gymorth lleol eraill ran flaenllaw yn aml hefyd ee. Wirral Environmental Network; Streets Ahead for Information (Middlesborough). Mewn un achos, rhoddodd cadwyn Canolfannau Garddio blanhigion trwy gynllun cymunedol "Here we Grow".

Mae Cyngor Middlesborough yn enghraifft o gyngor sydd wedi chwarae rhan allweddol yn annog cynlluniau lonydd cefn gyda mwy nag 20 o gynlluniau yn mynd yn eu blaen gyda lefelau amrywiol o gymorth gan y cyngor[xiii].

Mae Groundwork ym Manceinion Fwyaf hefyd wedi arwain at fenter Eco-stryd gan helpu cymunedau i ddod o hyd i atebion yn seiliedig ar natur ac yn gwneud cynllun i ofalu am ofod cymunedol yn y tymor hwy[xiv]. Mae eu tudalen ar y we https://www.groundwork.org.uk/hubs/greatermanchester/eco-streets/ yn cynnwys cyngor ar sawl agwedd ar y math yma o brosiect.

## Canlyniadau

Mae lluniau o'r achosion a nodwyd yn yr erthyglau y cyfeirir atynt yma yn dangos enghreifftiau o ofod hardd sydd yn cael gofal. Soniodd preswylwyr a rhanddeiliaid eraill gafodd eu cyfweld am ystod gyfan o fuddion y tu hwnt i amgylchedd ffisegol y lonydd cefn. Mae preswylwyr yn sôn am ddod i adnabod cymdogion nad ydynt wedi siarad â nhw erioed o'r blaen a theimlad cynyddol o gymuned. Dysgwyd sgiliau uwchgylchu a garddio. Cafodd gofod awyr agored ychwanegol ei greu ar gyfer gweithgareddau ac ymlacio.

## Casgliad

Wrth edrych ar y straeon hyn o drawsnewid ceir ysbrydoliaeth i weld lonydd cefn sydd yn broblem mewn goleuni gwahanol. Mae brwdfrydedd gan grŵp craidd o breswylwyr yn hanfodol i gael y fenter ar ben y ffordd. Mae'r cyngor a chymdeithasau tai a sefydliadau cymunedol / trydydd sector priodol hefyd yn cynnig cefnogaeth hanfodol a chymorth ymarferol i alluogi preswylwyr i gyflawni eu huchelgais ac yn ymdrin â'r materion ymarferol cysylltiedig.

Dyma rai pwyntiau allweddol i feddwl amdaynt yn ystod cyfnodau gwahanol:

## Dechrau

- Penderfynwch sut i ymgysylltu â phreswylwyr er mwyn sefydlu lefel y diddordeb a chanfyddwch beth sy'n bwysig iddynt (ee bore coffi er mwyn cael trafodaeth anffurfiol)
- Pwy sydd yn berchen ar y tir? Caniatâd pwy sydd ei angen?
- Rhannwch straeon ynghylch sut mae cymunedau eraill wedi atal tipio anghyfreithlon ac wedi trawsnewid eu lonydd cefn er mwyn rhoi ysbrydoliaeth
- Ystyriwch dechrau'n fach gyda threial – ee. gosod ychydig o blanwyr i fesur yr ymateb

## Symud ymlaen

- Gall un neu ddau o breswylwyr brwdfrydig wneud gwahaniaeth mawr ond gwnewch yn siŵr bod ganddynt y cysylltiadau, y gallu a'r sgiliau cywir
- Gall cynghorwyr lleol a grwpiau gwirfoddol lleol eraill o bosibl roi cymorth pwysig a dileu rhwystrau
- Meddyliwch am gyfathrebu wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen fel bod gwirfoddolwyr yn parhau â diddordeb (grŵp WhatsApp neu gylchlythyr)
- Gwnewch yn siŵr bod y ffocws ar y canlyniadau y mae preswylwyr eu heisiau a'u blaenoriaethau nhw
- Help gyda chostau – a fydd y Cyngor yn clirio i ddechrau? Allai busnesau lleol gyfrannu planhigion neu gynhwyswyr? Unrhyw gynlluniau ariannu addas (ee adfywio, newid hinsawdd, cronfeydd cynaliadwyedd)
- Ystyriwch a oes pethau y gellir eu hailgylchu neu eu huwchgylchu i ddarparu cynhwyswyr, ardaloedd eistedd ac ati am gost isel.

## Tymor hwy

- Dathlwch yr hyn sydd wedi cael ei gyflawni: ee barbeciw, bore coffi ac ati sy'n defnyddio'r gofod ac yn cynnwys cymaint o breswylwyr lleol â phosibl.
- Cytunwch pwy fydd yn gwneud beth er mwyn sicrhau bod y lôn gefn yn cael ei chynnal a'i chadw. Cadwch y momentwm i fynd gyda syniadau newydd.

---

[i] Alley-gates: preventing crime or isolating communities?

[ii] Rundown alleyway transformed into urban oasis with its own cinema - Liverpool Echo (Image credit Berringtoncommunitygarden)

[iii] Community alley growing | Social Farms & Gardens (farmgarden.org.uk)

[iv] Residents work together to transform alleyway into community space in Longsight - Manchester Evening News

[v] Middlesborough Community transform rundown back alley

[vi] Community alley growing | Social Farms & Gardens (farmgarden.org.uk)

[vii] Middlesbrough community transform rundown back alley - BBC News

[viii] Neighbours from Litherland transform their overgrown alleyway into an amazing community garden - My Sefton News Channel

[ix] Neighbours from Litherland transform their overgrown alleyway into an amazing community garden - My Sefton News Channel (Image credit ruffordcommunitygarden)

[x] Merseyside alleyways transformed into amazing community spaces

[xi] Merseyside alleyways transformed into amazing community spaces - Liverpool Echo (Image credit Andrew Teebay/Liverpool Echo)

[xii] Residents and Volunteers get green-fingered to improve community space

[xiii] National spotlight for amazing alley makeovers

[xiv] Eco-Streets, Groundwork (Greater Manchester)